



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 3273 (Cy.323)

2003 No. 3273 (W.323)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Clwy Affricanaidd y
Moch (Cymru) 2003**

**The African Swine Fever (Wales)
Order 2003**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru, yn rhoi Cyfarwydddeb y Cyngor 2002/60/EC (OJ Rhif L192, 20.07.2002, t.27) ar waith a honno'n adolygu camau'r Gymuned i reoli clwy affricanaidd y moch. Mae'n dirymu a disodli Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch 1980 i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

This Order, which applies to Wales, implements Council Directive 2002/60/EC (OJ No. L192, 20.07.2002, p.27) revising Community measures for the control of African swine fever. It revokes and replaces the African Swine Fever Order 1980 so far as it applies to Wales.

Mae'r Gorchymyn hwn -

This Order-

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n amau bod mochyn neu garcas wedi ei heintio â chlwy Affricanaidd y moch (y clefyd) roi gwybod i'r rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol ac yn gosod cyfyngiadau ar symud moch neu garcasau neu bethau eraill (erthygl 4);
- (b) yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad sy'n gorfodi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn yr hysbysiad mewn amgylchiadau lle y mae'n amau bod y clefyd efallai yn bresennol (erthygl 5);
- (c) yn caniatáu i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad pellach sy'n gosod cyfyngiadau ychwanegol i'r rhai sy'n ofynnol gan erthygl 5 (erthygl 6);
- (ch) os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad, yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y daliad yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau y cydymffurfir â'r cyfyngiadau a'r

- (a) requires any person who suspects that a pig or carcase is inspected with African swine fever (the disease) to notify the Divisional Veterinary manager and imposes restrictions on the movement of pigs or carcasses or other things off the premises (article 4);
- (b) requires a veterinary inspector to serve a notice imposing the requirements set out in the notice to be complied with in circumstances where he or she suspects that the disease may exist (article 5);
- (c) permits a veterinary inspector to serve a further notice imposing additional restrictions to those required by article 5 (article 6);
- (d) where the presence of the disease is confirmed on a holding, requires a veterinary inspector to serve a notice on the occupier of the holding requiring him or her to ensure that the restrictions and requirements in article 5 and

- gofynion yn erthygl 5 ac unrhyw ofynion yn erthygl 6 sy'n gymwys (erthygl 7);
- (d) yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, mewn abwyfa neu ar gyfrwng cludo (erthygl 8);
 - (dd) yn nodi'r camau y dylid eu cymryd pan amheuir bod y clefyd wedi cael ei drosglwyddo i'r safle heintiedig neu sydd o dan amheuaeth neu ohonynt i safle arall neu ohono (erthygl 9);
 - (e) yn darparu ar gyfer sefydlu parthau rheoli dros dro (erthygl 10);
 - (f) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, pan gaiff y clefyd ei gadarnhau, sefydlu ardal o gwmpas y safle lle y cafwyd brigiad o'r clefyd ac yn darparu ar gyfer hollti'r ardal hon yn barth diogelu a pharth goruchwyllo (erthygl 11 ac Atodlen 1);
 - (ff) yn nodi'r gofynion o ran glanhau a diheintio (erthygl 12);
 - (g) yn nodi'r camau sydd i'w cymryd os y cadarnheir neu yr amheuir bod y clefyd yn bresennol ymhlith moch fferal (erthyglau 13 a 14 ac Atodlen 2);
 - (ng) yn gwahardd defnyddio'r brechlyn clwy Affricanaidd y moch oni bai fod y Cynulliad Cenedlaethol yn ei awdurdodi (erthygl 15);
 - (h) yn rhoi'r pŵer i arolygydd i gymryd camau i sicrhau bod gofynion y Gorchymyn hwn yn cael eu bodloni os yw unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny (erthygl 16);
 - (i) yn darparu'r manylion ynglŷn â gweithredu rhai o bwerau arolygwyr milfeddygol a swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a'r Ysgrifennydd Gwladol pan amheuir brigiad o glwy Affricanaidd y moch. Mae'r prif bwerau cyffredinol wedi eu nodi yn adrannau 63 a 64A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (erthygl 17).
 - (j) yn darparu ar gyfer gorfodi'r Gorchymyn (erthygl 18).

Mae methiant i gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ac wedi'i roi yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Is-adran Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

- any applicable requirements of article 6 are carried out (article 7);
- (e) sets out the measures which must be taken where the disease is confirmed in a slaughterhouse, knacker's yard or on a means of transport (article 8);
 - (f) sets out the action that should be taken where it is suspected that the disease may have been transferred to or from the infected or suspected premises to or from other premises (article 9);
 - (g) provides for the establishment of temporary control zones (article 10);
 - (h) requires the National Assembly for Wales, on confirmation of disease, to establish an area around an outbreak site of the disease and provides for this area to be split into a protection zone and a surveillance zone (article 11 and Schedule 1);
 - (i) sets out the requirements for cleansing and disinfection (article 12);
 - (j) sets out the measures to be taken where the disease is suspected or confirmed in feral pigs (articles 13 & 14 and Schedule 2);
 - (k) prohibits the use of the African swine fever vaccine unless the National Assembly authorises it (article 15);
 - (l) gives power to an inspector to take action to ensure that the requirements of this Order are carried out where any person fails to comply with those restrictions and requirements (article 16);
 - (m) provides the specifics as to the exercise of certain of the powers of veterinary inspectors and of officers of the National Assembly or the Secretary of State when an outbreak of African swine fever is suspected. The general powers are set out in sections 63 and 64A of the Animal Health Act 1981 (article 17);
 - (n) provides for the enforcement of the Order (article 18).

Failure to comply with this Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981.

A regulatory appraisal has been prepared and placed in the Library of the National Assembly for Wales. Copies are available from the Welsh Assembly Government, Animal and Plant Health Division, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2003 Rhif 3273 (Cy.323)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Clwy Affricanaidd y
Moch (Cymru) 2003**

Wedi'i wneud *13 Rhagfyr 2003*
Yn dod i rym *15 Rhagfyr 2003*

TREFN YR ERTHYGLAU

Erthygl

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Eithriadau
4. Hysbysu am y clefyd
5. Camau i'w cymryd tra ymchwilir i amheuaeth o'r clefyd
6. Camau pellach i'w cymryd os yw hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan erthygl 5
7. Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad
8. Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, abwyfa neu ar gyfrwng cludo
9. Camau i'w cymryd o ran daliadau y mae'n bosib y cafodd y clefyd ei drosglwyddo iddynt neu ohonynt
10. Parth Rheoli Dros Dro
11. Parthau diogelu a goruchwyllo
12. Glanhau a diheintio
13. Parth ymchwilio moch fferal
14. Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn mochyn fferal
15. Brechu
16. Cydymffurfio
17. Pwerau arolygwyr ac arolygwyr milfeddygol
18. Gorfodi
19. Dirymu

2003 No. 3273 (W.323)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The African Swine Fever (Wales)
Order 2003**

Made *13th December 2003*
Coming into force *15th December 2003*

ARRANGEMENT OF ARTICLES

Article

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Exemptions
4. Notification of the disease
5. Measures while suspicion of the disease is being investigated
6. Further measures when a notice has been served under article 5
7. Measures when the disease is confirmed on a holding
8. Measures when the disease is confirmed in a slaughterhouse, knacker's yard or on a means of transport
9. Measures that apply in respect of holdings from or to which the disease may have been transmitted
10. Temporary control zone
11. Protection and surveillance zones
12. Cleansing and disinfection
13. Feral pig investigation zone
14. Measures when the disease is confirmed in a feral pig
15. Vaccines
16. Compliance
17. Powers of inspectors and veterinary inspectors
18. Enforcement
19. Revocations

ATODLENNI

ATODLEN 1

CAMAU SY'N GYMWYS MEWN PARTHAU DIOGELU A GORUCHWYLIO

ATODLEN 2

CAMAU SY'N GYMWYS MEWN ARDAL HEINTIEDIG A SEFYDLIR O DAN ERTHYGL 14

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7(1), 8(1), 15(4), 17(1), 23, 25, 28, 35, 38 ac 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwysio

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch (Cymru) 2003 a daw i rym ar 15 Rhagfyr 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn, os nad yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall -

ystyr "abwyfa" ("*knacker's yard*") yw unrhyw safle a ddefnyddir mewn cysylltiad â lladd, blingo neu dorri anifeiliaid na fwriedir i'w cig gael ei fwyta gan bobl;

ystyr "carcas" ("*carcase*") yw carcass mochyn ac mae'n cynnwys rhan o garcas;

ystyr "y clefyd" ("*the disease*") yw clwy Affricanaidd y moch;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw fan lle y mae unrhyw fochyn yn cael ei fridio neu ei gadw yn barhaol neu dros dro neu wedi cael eu

(a) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) am ddiffiniadau 'the Ministers' a 'the Minister'. Trosglwyddwyd swyddogaethau 'the Ministers', i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau 'the Ministers' i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd yr Alban mewn cysylltiad â Chymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141) ac wedi hynny fe'u trosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

SCHEDULES

SCHEDULE 1

MEASURES THAT APPLY IN PROTECTION AND SURVEILLANCE ZONES

SCHEDULE 2

MEASURES THAT APPLY IN AN INFECTED AREA ESTABLISHED UNDER ARTICLE 14

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, in exercise of the powers conferred on them by sections 1, 7(1), 8(1), 15(4), 17(1), 23, 25, 28, 35, 38 and 83(2) of the Animal Health Act 1981(a) make the following Order:

Title, commencement and application

1.-(1) This Order is called the African Swine Fever (Wales) Order 2003 and comes into force on 15th December 2003.

(2) This Order applies in relation to Wales.

Interpretation

2.-(1) In this Order -

"carcase" ("*carcas*") means a pig carcase and includes part of a carcase;

"the Chief Veterinary Officer" ("*y Prif Swyddog Milfeddygol*") means the Chief Veterinary Officer for Great Britain;

"the disease" ("*y clefyd*") means African swine fever;

"Divisional Veterinary Manager" ("*Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol*") means the person appointed for the time being by the Secretary of State to receive information about infected or suspected animals or carcasses for the area in which such animals or carcasses are located;

"feral pig" ("*mochyn fferal*") means a pig which is not kept or bred on a holding and is

(a) 1981 c.22. *See* section 86(1) for the definitions of "the Ministers" and "the Minister". Functions of "the Ministers" so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Functions of "the Ministers" so far as exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales, were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141) and were then transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

cadw ar unrhyw adeg yn ystod y 56 diwrnod blaenorol, ond nid yw'n cynnwys lladd-dy, abwyfa, cyfrwng cludo nac ardal wedi ei ffensiō lle y cedwir moch fferal y gellir eu hela;

ystyr "daliad a amheuir" ("*suspected holding*") yw daliad y mae hysbysiad o dan erthygl 5 wedi cael ei gyflwyno ynglŷn ag ef;

ystyr "daliad heintiedig" ("*infected holding*") yw daliad y mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol yno;

ystyr "fector" ("*vector*") yw torogen o'r rhywogaeth *Ornithodoros erraticus* neu unrhyw dorogen o'r genws *Ornithodoros* sydd, ym marn y Prif Swyddog Milfeddygol, â'r gallu i drosglwyddo clwy Affricanaidd y moch; ystyr "y feirws" ("*the virus*") yw feirws clwy Affricanaidd y moch;

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw unrhyw adeilad, safle neu le arall (heblaw cyfleuster trafod anifeiliaid hela a ffermir) ar gyfer cigydda anifeiliaid y bwriedir eu cig i'w fwyta gan bobl, ac mae'n cynnwys unrhyw le sydd ar gael mewn cysylltiad ag ef lle cedwir anifeiliaid cyn eu cigydda;

ystyr "mochyn" ("*pig*") yw anifail o dylwyth y *suidae*;

ystyr "mochyn fferal" ("*feral pig*") yw mochyn nas cedwir na bridir ar ddaliad ac nad yw mewn lladd-dy, mewn abwyfa nac ar gyfrwng cludo;

ystyr "y Prif Swyddog Milfeddygol" ("*the Chief Veterinary Officer*") yw Prif Swyddog Milfeddygol Prydain Fawr; ac

ystyr "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" ("*Divisional Veterinary Manager*") yw'r person a benodir dros dro gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gael gwybod am anifeiliaid a charcasau sydd wedi eu heintio neu yr amheuir eu bod wedi eu heintio ar gyfer yr ardal lle y mae'r anifeiliaid neu'r carcasau hynny.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn -

- (i) amheuir bod mochyn neu garcas mochyn wedi ei heintio gan y clefyd os oes ganddo arwyddion clinigol neu namau post mortem sy'n cyd-fynd ag effeithiau'r feirws neu os yw canlyniadau prawf diagnostig yn dangos ei bod yn bosib bod y feirws yn bresennol yn yr anifail hwnnw neu'r carcas hwnnw;
- (ii) mae mochyn neu garcas mochyn wedi ei heintio gan y clefyd os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol yn penderfynu ei fod wedi'i heintio ar sail arwyddion clinigol, neu namau post mortem, neu ganlyniadau prawf diagnostig neu amgylchiadau epidemiolegol.

not in a slaughterhouse, knacker's yard or on a means of transport;

"holding" ("*daliad*") means any place where any pig is bred or kept on a permanent or temporary basis or has been kept at any time during the previous 56 days but does not include a slaughterhouse, knacker's yard or means of transport or fenced area where feral pigs are kept and may be hunted;

"infected holding" ("*daliad heintiedig*") means a holding where the Chief Veterinary Officer has confirmed that the disease is present;

"knacker's yard" ("*abwyfa*") means any premises used in connection with the business of slaughtering, flaying or cutting up animals whose flesh is not intended for human consumption;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"pig" ("*mochyn*") means an animal of the *suidae* family;

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") means any building, premises or place (other than a farmed game handling facility) for slaughtering animals the flesh of which is intended for sale for human consumption, and includes any place available in connection therewith for the confinement of animals while awaiting slaughter there;

"suspected holding" ("*daliad a amheuir*") means a holding in relation to which a notice under article 5 has been served;

"vector" ("*fector*") means a tick of the species *Ornithodoros erraticus*, or any other tick of the genus *Ornithodoros* which, in the opinion of the Chief Veterinary Officer, is capable of transmitting African swine fever;

"the virus" ("*y feirws*") means the African swine fever virus.

(2) For the purposes of this Order-

- (i) a pig or pig carcase is suspected of being infected with the disease if it has clinical signs or post-mortem lesions consistent with the effects of the virus or if the results of a diagnostic test indicate the possible presence of the virus in that animal or carcase;
- (ii) a pig or pig carcase is infected with the disease if the Chief Veterinary Officer determines that it is infected on the basis of clinical signs, post-mortem lesions or the result of a diagnostic test and any epidemiological circumstances;

Eithriadau

3. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys pan fo'r feirws yn bresennol mewn amgylchiadau pan fydd trwydded wedi ei rhoi o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(a).

Hysbysu am y clefyd

4.-(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n amau bod y clefyd yn bresennol mewn unrhyw fochyn neu garcas-

- (a) y mae'n berchen arno; neu
- (b) sydd yn ei ofal; neu
- (c) y mae yn ei archwilio,

hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol yn ddiymdroi.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n dadansoddi samplau a gymerir o unrhyw anifail neu garcas ac sy'n darganfod tystiolaeth o wrthgorffynnau neu antigenau i'r clefyd neu unrhyw frechiad i'r clefyd hysbysu'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol yn ddiymdroi.

(3) Ni chaiff neb symud yr un mochyn na charcas yr amheuir ei fod wedi ei heintio gan y clefyd, nac unrhyw gig, cynnyrch a wnaed o foch, semen, ofwm nac embryo mochyn, porthiant anifeiliaid, tail (tom) na biswail nac unrhyw offer, deunydd na gwastraff y maent yn debygol o drosglwyddo'r clefyd, o'r daliad nac o le arall lle y ceir hyd iddo, oni bai fod arolygydd milfeddygol wedi ymweld â'r daliad neu'r lle arall hwnnw a bod yr arolygydd hwnnw naill ai wedi gorfodi cyfyngiadau o dan erthygl 5 neu wedi hysbysu'r person hwnnw nad oes angen, yn ei farn ef, gwneud hynny.

Camau i'w cymryd tra ymchwilir i amheuaeth o'r clefyd

5.-(1) Rhaid i arolygydd milfeddygol sy'n amau bod y clefyd yn bresennol ar unrhyw ddaliad, lladd-dy, abwyfa, lle arall neu gyfrwng cludo, neu y gallasai fod wedi bod yn bresennol yno yn y 56 diwrnod blaenorol, os yw hysbysiad wedi ei roi o dan erthygl 4 ai peidio -

- (a) cyflwyno hysbysiad -
 - (i) i feddiannydd y daliad gan orfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodwyd ym mharagraffau (2) a (3); neu
 - (ii) i feddiannydd lladd-dy neu abwyfa neu i'r person sy'n ymddangos ei fod â gofal cyfrwng cludo yn nodi pa rai o'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir ym mharagraffau (2) a (3) isod sy'n ymddangos yn berthnasol i'r arolygydd milfeddygol; a
- (b) gwneud archwiliad i gadarnhau bod y clefyd yn bresennol neu'n absennol.

(2) Pan gyflwynir hysbysiad o dan baragraff 1 rhaid i'r meddiannydd -

(a) O.S. 1998/463.

Exemptions

3. This Order does not apply in respect of the presence of the virus in circumstances when a licence has been issued under article 4 of the Specified Animal Pathogens Order 1998(a).

Notification of the disease

4.-(1) Any person who suspects the disease in any pig or carcass which is -

- (a) in his or her possession; or
- (b) under his or her charge; or
- (c) being examined or inspected by him or her,

must immediately notify the Divisional Veterinary Manager.

(2) Any person who analyses samples taken from any animal or carcass and who finds evidence of antibodies or antigens to the disease or to any vaccine for the disease must immediately notify the Divisional Veterinary Manager.

(3) No person may move any pig or carcass suspected of being infected with the disease, nor any meat, pig product, semen, ovum or embryo of pigs, animal feeding stuff, manure or slurry or any other utensils, material or waste likely to transmit the disease, from the holding or other place on which it is found, unless that holding or other place has been visited by a veterinary inspector and the veterinary inspector has either imposed restrictions under article 5 or notified that person that he or she does not consider it necessary to do so.

Measures while suspicion of the disease is being investigated

5.-(1) A veterinary inspector who suspects that the disease may exist or may within the previous 56 days have existed on any holding, slaughterhouse, knacker's yard, any other place or a means of transport, whether or not notification has been given under article 4, must-

- (a) serve a notice
 - (i) on the occupier of the holding imposing the restrictions and requirements set out in paragraphs (2) and (3); or
 - (ii) on the occupier of a slaughterhouse or knacker's yard or the person appearing to be in charge of a means of transport imposing such of the restrictions and requirements set out in paragraphs (2) and (3) below as appear to the veterinary inspector to be appropriate; and
- (b) carry out an investigation to confirm or rule out the presence of the disease.

(2) When a notice is served under paragraph (1), the occupier must

(a) S.I. 1998/463.

- (a) paratoi, o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, gofnod yn ôl y categorïau canlynol -
- (i) sawl mochyn sydd;
 - (ii) sawl mochyn sydd, yn ôl eu golwg, heb y clefyd;
 - (iii) sawl mochyn sydd, yn ôl eu golwg, â'r clefyd arnynt;
 - (iv) sawl mochyn sydd wedi marw yn ystod y 56 diwrnod cyn dyddiad yr hysbysiad;
- (b) sicrhau bod y cofnod yn cael ei ddiweddarau i gynnwys y moch sy'n cael eu geni a'r rhai sy'n marw yn ystod y cyfnod pan fo'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y paragraff hwn a pharagraff (3) mewn grym a chofnodi sawl mochyn sy'n mynd yn sâl a fu gynt, yn ôl eu golwg, heb y clefyd;
- (c) dangos y cofnod i arolygydd ar ei gais;
- (ch) sicrhau bod pob mochyn ar y safle yn cael ei gadw yn ei dwlc neu yn rhyw le arall a bennir yn yr hysbysiad;
- (d) sicrhau, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan arolygydd milfeddygol, bod dulliau priodol o ddiheintio yn cael eu rhoi wrth fynedfeydd ac allanfeydd y rhannau hynny o'r safle lle cedwir y moch a'r safle ei hunan.

(3) Pan fydd hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan baragraff (1), ni chaiff neb -

- (a) symud unrhyw fochyn i'r safle neu oddi yno os na wneir hynny yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol a rhaid i'r meddiannydd sicrhau nad yw'r moch yn gallu crwydro o'r tir a'r adeiladau nac i mewn iddynt;
- (b) symud unrhyw gig, carcass mochyn, cynnyrch a wnaed o foch, semen, ofwm nac embryo mochyn, nac unrhyw borthiant anifeiliaid, offer, deunydd na gwastraff nac unrhyw beth arall y maent yn debygol o drosglwyddo'r clefyd o'r safle, heblaw os yw hynny'n cael ei wneud yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd;
- (c) dod i mewn i'r safle nac ohono os nad yw'n gwneud hynny yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol;
- (ch) symud unrhyw gerbyd i mewn i'r safle nac oddi yno os nad yw'n cael ei wneud yn unol â thrwydded a roddwyd gan arolygydd milfeddygol.

(4) Pan fydd gan arolygydd milfeddygol seiliau dros amau presenoldeb fectorau ar safle penodol yn sgil ei leoliad, ei sefyllfa ddaearyddol neu ei gysylltiadau â safle lle y gwyddir neu yr amheuir bod y clefyd yn bodoli (yng Nghymru neu rywle arall) caiff yr arolygydd milfeddygol hwnnw, neu arolygydd yn gweithio o dan ei gyfarwyddiadau, gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y safle penodol, ac o wneud

(a) prepare under the direction of a veterinary inspector a record by category of -

- (i) the number of pigs;
 - (ii) the number of live pigs which appear to be free of disease;
 - (iii) the number of live pigs which appear to have the disease;
 - (iv) the number of pigs which have died in the 56 days prior to the date of the notice;
- (b) ensure that the record is kept up to date to take account of pigs that are born or die during the period that restrictions and requirements under this paragraph and paragraph (3) are in force and to record the number of pigs which fall sick having been previously apparently free of disease;
- (c) produce the record to an inspector on request;
- (d) ensure that all pigs on the premises are kept in their living quarters or some other place specified in the notice;
- (e) ensure that, in accordance with any instructions given by a veterinary inspector, appropriate means of disinfection are placed at the entrances and exits of those parts of the premises in which pigs are being kept and of the premises themselves.

(3) When a notice has been served under paragraph (1), no person may-

- (a) move any pigs onto or off the premises except in accordance with a licence issued by a veterinary inspector and the occupier must ensure that pigs are unable to stray from or on to the premises;
- (b) move any meat, pig carcass, pig product, semen, ovum or embryo of pigs, or any animal feed, utensil, material or waste or other thing likely to transmit the disease from the premises, except in accordance with a licence issued by an inspector;
- (c) come on to or off the premises except in accordance with a licence issued by a veterinary inspector;
- (d) move any vehicle on to or off the holding except in accordance with a licence issued by a veterinary inspector.

(4) When a veterinary inspector has grounds for suspecting the presence of vectors on particular premises in consequence of their location, geographical situation or contacts with premises where the disease is known or suspected to exist (in Wales or elsewhere), that veterinary inspector, or an inspector acting under his or her direction, may serve a notice on the occupier of the particular premises, and thereupon

hynny, caiff arolygydd milfeddygol, arolygydd neu swyddog arall y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol fynd ar y safle penodol.

Camau pellach i'w cymryd os yw hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan erthygl 5

6. Os yw hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan erthygl 5, caiff arolygydd milfeddygol, drwy gyflwyno hysbysiad pellach i feddiannydd y daliad, lladd-dy, abwyfa neu unrhyw le arall neu i'r person y mae'n ymddangos iddo sydd â gofal y cyfrwng cludo -

- (a) gwahardd symud unrhyw rywogaeth arall o anifail i mewn i'r safle neu oddi yno;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd gymryd pob cam rhesymol i ddifa cnofilod a phryfed ar y safle;
- (c) ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd neu'r person sy'n ymddangos ei fod â gofal y cyfrwng cludo lanhau a diheintio'r safle neu'r cyfrwng cludo a hynny ar ei draul ei hun neu ar draul yr Ysgrifennydd Gwladol mewn unrhyw fodd a bennir yn yr hysbysiad, ac o fewn unrhyw amser a bennir felly; ac
- (ch) yn achos cyfrwng cludo, ei gwneud yn ofynnol ei fod-
 - (i) yn cael ei ddwyn i'r gyrchfan a bennir yn yr hysbysiad;
 - (ii) yn cael ei ddadlwytho, ei lanhau a'i ddiheintio ac, os oes angen, defnyddio gwiddonladdwr arno, fel a bennir yn yr hysbysiad; a
 - (iii) os pennir hynny, yn cael ei ddadlwytho, ei lanhau a'i ddiheintio a defnyddio gwiddonladdwr arno o dan oruchwyliaeth arolygydd milfeddygol.

Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad

7.-(1) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad, rhaid i arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad o dan yr erthygl hon i feddiannydd y daliad hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau y cydymffurfir â'r cyfyngiadau a'r gofynion a geir yn erthygl 5 onid oes hysbysiad o'r fath o dan erthygl 5 wedi ei gyflwyno eisoes ac yn yr achos hwnnw fe fydd y cyfyngiadau a'r gofynion a gynhwysir ynddo yn parhau mewn grym hyd nes y byddant yn cael eu hamrywio neu eu disodli gan arolygydd milfeddygol.

(2) Pan geir cadarnhad o'r fath caiff arolygydd milfeddygol ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, fod y camau hynny a nodir yn erthygl 6 yn cael ei roi ar waith hefyd neu fel y gwêl orau.

a veterinary inspector, an inspector acting in accordance with a veterinary inspector's direction or an officer of the National Assembly or of the Secretary of State may enter the particular premises.

Further measures when a notice has been served under article 5

6. When a notice has been served under article 5, a veterinary inspector may, by further notice served on the occupier of the holding, slaughterhouse, knacker's yard or any other place or on the person appearing to him or her to be in charge of the means of transport-

- (a) prohibit the movement of any other species of animal on to or off the premises;
- (b) require the occupier to take all reasonable measures to destroy rodents and insects on the premises;
- (c) require the occupier or the person appearing to be in charge of the means of transport to cleanse and disinfect the premises or the means of transport at his or her own expense or at the expense of the Secretary of State in such a manner as may be specified in the notice, and within such time as may be so specified; and
- (d) in the case of a means of transport, require it to be-
 - (i) taken to a destination specified in the notice;
 - (ii) unloaded, cleansed and disinfected, and, if necessary, subjected to an acaricide as specified in the notice; and
 - (iii) if so specified, unloaded, cleansed and disinfected and subjected to the acaricide under the supervision of a veterinary inspector.

Measures when the disease is confirmed on a holding

7.-(1) When the Chief Veterinary Officer has confirmed that the disease is present on a holding, a veterinary inspector must serve a notice under this article on the occupier of that holding requiring him or her to ensure that the restrictions and requirements contained in article 5 are complied with unless a notice under article 5 has already been served in which case the restrictions and requirements contained in it will remain in force until they are either varied or removed by a veterinary inspector.

(2) On and after such confirmation a veterinary inspector may also by notice require the implementation of such of the measures as are set out in article 6 as he or she thinks fit.

Camau i'w cymryd os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, abwyfa neu ar gyfrwng cludo

8. Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol mewn lladd-dy, mewn abwyfa neu ar gyfrwng cludo, caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i feddiannydd y lladd-dy, yr abwyfa neu i'r person y mae'r cyfrwng cludo yn ei ofal, yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau-

- (a) yn achos lladd-dy neu abwyfa, bod pob adeilad, cyfarpar a cherbyd a bennir yn yr hysbysiad yn cael ei lanhau a'i ddiheintio ac, os oes angen, defnyddio gwiddonladdwr arno, yn unol â chyfarwyddiadau, ac o dan oruchwyliaeth arolygydd milfeddygol;
- (b) yn achos cyfrwng cludo, ei fod yn cael ei gymryd i gyrchfan, ei ddadlwytho, ei lanhau a'i ddiheintio ac, os oes angen, defnyddio gwiddonladdwr arno, yn unol â chyfarwyddiadau, ac o dan oruchwyliaeth arolygydd milfeddygol;
- (c) na ddeuir â'r un mochyn i mewn i'r lladd-dy, yr abwyfa na'r cyfrwng cludo nes bydd o leiaf 24 awr wedi mynd heibio ers cwblhau'r gwaith glanhau a diheintio ac, os gwnaed hynny, defnyddio gwiddonladdwr arno, yn unol ag isbaragraffau (a) a (b) uchod.

Camau i'w cymryd o ran daliadau y mae'n bosib y cafodd y clefyd ei drosglwyddo iddynt neu ohonynt

9.-(1) Os, yn sgil ymchwiliad i epidemiolog y clefyd ar ddaliad, y mae arolygydd milfeddygol o'r farn bod y clefyd sydd ar ddaliad sydd wedi ei heintio neu ddaliad a amheuir efallai wedi cael ei drosglwyddo i safle arall, neu ohono, caiff gyflwyno hysbysiad o dan erthygl 5 i feddiannydd y safle arall hwnnw.

(2) Os yw'r clefyd wedi ei ganfod ar anifeiliaid mewn lladd-dy, mewn abwyfa neu ar gyfrwng cludo, caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno hysbysiad o dan erthygl 5 i feddiannydd unrhyw safle y mae'r anifeiliaid neu garcasau heintiedig sydd yn y lladd-dy hwnnw, yr abwyfa honno neu'r cyfrwng cludo hwnnw wedi dod ohono yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o fewn y 56 diwrnod blaenorol neu, yn achos cyfrwng cludo, unrhyw safle y mae'r cyfrwng cludo hwnnw wedi teithio iddo ers hynny.

Parth Rheoli Dros Dro

10.-(1) Yn sgil cyflwyno hysbysiad o dan erthygl 5, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Orchymyn datganiadol, sefydlu parth a elwir "parth rheoli dros dro".

Measures when the disease is confirmed in a slaughterhouse, knacker's yard or on a means of transport

8. When the Chief Veterinary Officer has confirmed that the disease is present in a slaughterhouse, knacker's yard or on a means of transport, a veterinary inspector may serve a notice on the occupier of the slaughterhouse, knacker's yard or person in charge of the means of transport requiring him or her to ensure that-

- (a) in the case of a slaughterhouse or knacker's yard, all buildings, equipment and vehicles specified in the notice, are cleansed and disinfected and, if necessary, subjected to an acaricide in accordance with the instructions, and under the supervision, of a veterinary inspector;
- (b) in the case of a means of transport, it is taken to a destination, unloaded, cleansed and disinfected and, if necessary, subjected to an acaricide in accordance with the instructions, and under the supervision, of a veterinary inspector;
- (c) no pigs are reintroduced to the slaughterhouse, knacker's yard or means of transport until at least 24 hours after completion of the cleansing and disinfection operations and, when necessary, the application of an acaricide, carried out in accordance with sub-paragraph (a) and (b) above.

Measures that apply in respect of holdings from or to which the disease may have been transmitted

9.-(1) When, following an investigation into the epidemiology of the disease on a holding, a veterinary inspector considers that the disease on an infected or suspected holding may, for any reason, have been transmitted from or to other premises, he or she may serve a notice under article 5 on the occupier of those premises.

(2) Where disease has been found in animals in a slaughterhouse, knacker's yard or on a means of transport, a veterinary inspector may serve a notice under article 5 on the occupier of any premises from which the infected animals or carcasses in that slaughterhouse, knacker's yard or means of transport, have come directly or indirectly within the previous 56 days or, in the case of a means of transport, any premises to which the means of transport has since travelled.

Temporary Control Zone

10.-(1) Following the service of a notice under article 5, the National Assembly may, by declaratory Order, establish a zone to be known as a "temporary control zone".

(2) Pan fydd parth rheoli dros dro wedi cael ei sefydlu yn Lloegr sy'n cyffwrdd â ffin Cymru caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y barna'n angenrheidiol, sefydlu parth rheoli dros dro cysylltiedig yng Nghymru.

(3) Rhaid i'r parth rheoli dros dro fod wedi ei leoli a bod o'r fath faint ag sydd ei angen, ym marn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu.

(4) Os yw parth rheoli dros dro wedi ei sefydlu, ni chaiff neb -

- (a) symud yr un mochyn o unrhyw ddaliad, lladd-dy neu abwyfa yn y parth ac eithrio yn unol â thrwydded a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol;
- (b) symud unrhyw wartheg, defaid, geifr nac anifail cnoi cil arall o unrhyw ddaliad, lladd-dy neu abwyfa yn y parth y mae moch ynddi ac eithrio yn unol â thrwydded a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu'n unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol; nac
- (c) symud yr un mochyn allan o'r parth.

(5) Ni fydd y cyfyngiad ym mharagraff (4)(c) yn gymwys i foch sydd wedi eu llwytho ar gerbyd y tu allan i'r parth a'u cludo drwyddo heb i'r cerbyd gael ei llwytho na'i ddadlwytho.

(6) Ystyrir bod unrhyw ddaliad, lladd-dy neu abwyfa sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth rheoli dros dro yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

Parthau diogelu a goruchwyllo

11.-(1) Pan gadarnheir gan y Prif Swyddog Milfeddygol fod y clefyd yn bresennol, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn datganiadol, sefydlu ardal heintiedig ag iddi barth a elwir yn "barth diogelu" a pharth a elwir yn "barth goruchwyllo".

(2) Mae'r parth diogelu i gwmpasu ardal sydd o leiaf tri chilometr ei radiws mewn parth goruchwyllo sy'n cwmpasu ardal sydd o leiaf deg cilometr ei radiws, a'r daliad, y lladd-dy neu'r abwyfa y cadarnhawyd bod y clefyd yn bresennol yno fydd canolbwynt y ddau barth.

(3) Mae Rhan I o Atodlen 1 yn gymwys i barth diogelu a Rhan II o Atodlen 1 yn gymwys i barth goruchwyllo.

(4) Os cadarnheir bod y clefyd yn bresennol ar ddaliad, lladd-dy neu abwyfa yn Lloegr sydd o fewn 10 cilometr i'r ffin â Chymru, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy Orchymyn datganiadol,

(2) When a temporary control zone has been established in England which touches the border with Wales the National Assembly may, as it considers necessary, establish such an associated temporary control zone in Wales.

(3) The location and size of the temporary control zone shall be such as the National Assembly considers necessary to prevent the spread of disease.

(4) Where a temporary control zone has been established, no person may -

- (a) move any pig off a holding, slaughterhouse or knacker's yard in the zone except in accordance with a licence issued by a veterinary inspector or an inspector acting in accordance with the directions of a veterinary inspector;
- (b) move any cattle, sheep, goat, or other ruminating animal off any holding, slaughterhouse or knacker's yard in the zone which has pigs in it except in accordance with a licence issued by a veterinary inspector or an inspector acting in accordance with the directions of a veterinary inspector; or
- (c) move any pig out of the zone.

(5) The restriction in paragraph (4)(c) does not apply to pigs which are loaded onto a vehicle outside the zone and transported through it without the vehicle being loaded or unloaded inside the zone.

(6) Any holding, slaughterhouse or knacker's yard which is partly inside and partly outside a temporary control zone is to be deemed to be wholly inside that zone.

Protection and surveillance zones

11.-(1) Upon confirmation of disease by the Chief Veterinary Officer, the National Assembly must by declaratory order, establish an infected area comprising a zone to be known as a "protection zone" and a zone to be known as a "surveillance zone";

(2) The protection zone is to cover an area with a radius of at least three kilometres contained in a surveillance zone covering an area with a radius of at least ten kilometres, the centre point of each being the holding, slaughterhouse or knacker's yard where disease has been confirmed.

(3) Part I of Schedule 1 applies in a protection zone and Part II of Schedule 1 applies in a surveillance zone.

(4) Upon confirmation of the disease on a holding, slaughterhouse or knacker's yard in England, which is within 10 kilometres of the border with Wales, the National Assembly must, by declaratory Order,

sefydlu ardal heintiedig yng Nghymru fel y bydd parth diogelu sydd o leiaf tri chilometr ei radiws wedi ei gynnwys mewn parth goruchwyllo sydd o leiaf 10 cilometr ei radiws, a'r daliad yn Lloegr y cadarnhawyd bod y clefyd yn bresennol ynddo fydd canolbwynt y ddau.

(5) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymryd unrhyw gamau sydd, yn ei farn, eu hangen i sicrhau bod pob person mewn ardal heintiedig yn llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau sydd mewn grym, gan gynnwys drwy roi hysbysiadau neu arwyddion ar eiddo sydd o fewn yr ardal heintiedig.

